



Cyflawni dros ein cwsmeriaid busnes





Pwy ydym ni...



Mae Dŵr Cymru'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer dros dair miliwn o bobl ar draws rhan helaeth o Gymru, Sir Henffordd a Glannau Dyfrdwy — gan gynnwys 100,000 o gwsmeriaid busnes.

Mae ein model gweithredu nid-er-elw'n golygu ein bod ni'n canolbwyntio'n unswydd ar ddarparu gwasanaethau dŵr, dŵr gwastraff a gwasanaethau cysylltiedig eraill o safon uchel ar gyfer ein cwsmeriaid — a hynny am bris fforddiadwy.

R'yn ni'n wahanol i gwmnïau cyfleustodau eraill. Nid oes cyfranddeiliad gennym. Mae hyn yn golygu y gallwn ni weithio i leihau costau, cadw biliau'n isel a dychwelyd pob un geiniog a wnawn i gynnal

a gwella ein gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid, nawr ac am flynyddoedd mawr i ddod. R'yn ni'n cynllunio ar gyfer y tymor hir, ac yn credu ei bod hi'n ffordd well o lower o wneud pethau.

Gennym ni mae'r statws credyd uchaf o blith cwmnïau cyfleustodau'r DU. Mae hyn yn ein galluogi i fenthg arian am gyfradd llog isel, gan gadw ein costau gweithredu'n is. Mae'r cwmni a'n cwsmeriaid fel ei gilydd ar eu hennill oherwydd hyn.



Sut ydym yn mynd ati...

R'yn ni'n gwrando ar ein cwsmeriaid...

Ein gweledigaeth yw ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd.



Ein gwerthoedd...

balch

Balch o roi ein
cwsmeriaid
yn gyntaf

ymddiried

Ymddiried
ynom i wneud
y peth iawn

rhagori

Rhagori ym
mhopeth
a wnawn

agored

Agored i
syniadau
newydd

gonest

Gonest
gyda
phawb

diogel

Diogel
bob
amser



Rydyn ni yma ar gyfer ein cwsmeriaid busnes...

Cafodd y Tîm Gwasanaethau
Busnes ei greu i gynnig un pwynt
cysylltu a rheolwr cyfrif penodol
ar gyfer ein cwsmeriaid busnes.





Beth gallwn ni ei wneud i helpu eich busnes...

R'yn ni'n gwybod bod rheoli eich dŵr a'ch dŵr gwastraff yn effeithiol yn gallu gwella perfformiad eich busnes. Mae'n gallu gwella eich perfformiad amgylcheddol a'ch cynaliadwyedd hefyd.

Gall Dŵr Cymru helpu i ychwanegu gwerth at eich busnes trwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau wedi eu teilwra ar eich cyfer, gan gynnwys:

Rheoli Cyfrifon

Cewch Reolwr Cyfrif penodol i sicrhau eich bod chi'n cael y gwasanaeth a'r cyngor sy'n iawn i chi ac i'ch busnes.

Archwiliadau o Brosesau

Gallwn drefnu bod peiriannydd prosesau diwydiannol yn dod i edrych ar eich defnydd o ddŵr, gwastraff ac ynni er mwyn clustnodi arbedion a dulliau o sicrhau darbodaeth glir ym mhrosesau cynhyrchu a gweithredol eich safle.

Telemetreg

Gallwn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael dulliau manwl a hyblyg o gofnodi a monitro eu defnydd, sy'n amddiffyn eiddo ac yn helpu i glustnodi unrhyw ddefnydd gwastraffus o ddŵr neu ollyngiadau.

Archwiliadau Dŵr Domestig

Gallwn drefnu archwiliadau o ardaloedd domestig mewn eiddo masnachol er mwyn helpu i glustnodi arbedion a darbodaeth trwy leihau faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio.



Rydyn ni wrthi'n gweithio'n galed i gyflwyno rhagor o wasanaethau y gall eich busnes elwa arnynt.

Mae'r gwasanaethau sydd ar y gweill yn cynnwys:

**Darganfod
Gollyngiadau**

Gallwn ni eich helpu chi i ddarganfod unrhyw ollyngiadau ar eich rhwydwaith a'u trwsio, gan leihau costau i chi trwy osgoi unrhyw filiau dianghenraid o uchel.

**Mapio eich
rhwydweithiau preifat**

Gallwn helpu i fapio'r rhwydwaith preifat yn eich eiddo neu ar eich tir er mwyn clustnodi pa fesurau darbodaeth a gwelliannau sydd eu hangen.




Gweithio gyda'n cwsmeriaid...

Rydyn yn gweithio ag amryw
o gwsmeriaid, o fusnesau bychain
a sefydliadau'r sector cyhoeddus
i weithgynhyrchwyr aml-safle
a safleoedd diwydiannol mawr.
Rydyn ni'n eu cynorthwyo i reoli
eu rhwydweithiau dŵr a dŵr
gwastraff ar y safle.

Rydyn ni'n falch o ddweud bod gwaith ymchwil
annibynnol wedi dangos bod tua **90%** o'n cwsmeriaid
yn fodlon ar y gwasanaethau y maent yn eu cael
gennym.

Dangosodd gwaith ymchwil pellach gan y corff
defnyddwyr statudol, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, bod
lefelau hyder pobl mewn cwmnïau dŵr yn sylweddol
uwch ymysg cwsmeriaid busnes yng Nghymru nac
yn Lloegr.

Rydyn ni'n darparu gwasanaeth rheoli cyfrifon penodol
er mwyn helpu cwsmeriaid gyda'u gwahanol anghenion.



Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud...

“

Drwy weithio gyda Dŵr Cymru, gwnaethom ganfod ein bod yn defnyddio tua 59 metr ciwbig y diwrnod — sydd gyfwerth â fflysio toiled 6,500 o weithiau — hyd yn oed pan nad oedd yna ddigwyddiadau yn cael eu cynnal y stadiwm. Yn sgil ein hymrwymiad i gynaliadwydd a datblygu cynaliadwy, aethom at i ymchwilio a sylweddoli bod modd i ni gymryd camau gyda'n toiledau. Mae hyn wedi arwain at arbedion sylweddol — tua £20,000 y flwyddyn.

”

Darren Crossman

Rheolwr Cyfleustodau, Stadiwm y Principality, Coerdydd



Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud...

“

Rhoeddwn yn chwilio am ateb telemetreg a fyddai'n caniatáu i ni nodi tueddiadau o ran defnydd a darparu meincnodau ar gyfer canfod gollyngiadau a gwastraff.

Roedd yr ateb a gynigiodd Dŵr Cymru'n gost-effeithiol o'i gymharu â'r atebion gan gwmnïau eraill. Roeddynt yn cynnig mantais ychwanegol bod y rhyngwyneb monitro hwylus ar y we yn caniatáu i mi gyrchu gwybodaeth am ddefnydd ar ffurf graffiau yn y fan a'r lle.

”

Mike Baldwin

Rheolwr Gweithrediadau, Ysgol Rougemont,
Casnewydd

“

Mae'r manteision darbodaeth i Heddlu De Cymru o dreulio llai o amser yn prosesu nifer o anfonebau ar wahân wedi cwtogi ar y costau cynnal cysylltiedig, ac wedi ein galluogi ni i ailfuddsoddi'r amser yna er mwyn cyflawni mwy o weithgareddau er mwyn sicrhau gwerth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys dechrau cyflawni gwaith meincnodi ar ein defnydd o ddŵr ar ein holl safleoedd, fel y cam cyntaf wrth hyrwyddo darbodaeth o ran ein defnydd o ddŵr ar draws ein hystâd.

”

Dan Ferris MSc

Rheolwr Ystadau, Heddlu De Cymru



“

Mae'r help a'r cymorth a gawsom gan y Tîm Gwasanaethau Busnes wedi bod yn amhrisiadwy, gan alluogi'r Brifysgol i ddiwallu gofynion meini prawf adrodd a rheoli dŵr y Ddraig Werdd a sicrhau gwobr Lefel 5 (y lefel uchaf).

Mae'r Tîm Gwasanaethau Busnes wedi darparu gwasanaeth rhagorol. Maen nhw wedi bod yn allweddol wrth:

- Ddelio â cheisiadau pob dydd am ein cyfrifon, gan gynnwys gwybodaeth bilio, mewn ffordd effeithlon a phroffesiynol
- Trefnu cyfarfodydd safle gydag arolygwyr mesuryddion er mwyn sicrhau bod ein mesuryddion yn y lleoliad cywir
- Darparu cymorth parhaus trwy gyfarfodydd diweddaru
- Bwrw ymlaen â datblygiad e-gaffael
- Rhoi'r hyder i ni fod Dŵr Cymru bellach yn gwmni cynyddol flaengar

”

Duncan Morgan, Prif Swyddog, Lleihau Carbon
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant



Cysylltu â ni...

Fel cwmni sydd mewn perchnogaeth ar ran ei gwsmeriaid, rydyn ni'n falch o ddweud ein bod ni'n rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf bob tro.

Ry'n ni'n awyddus i ddeall beth mae ein cwsmeriaid busnes am ei gael gennym, a beth y gallwn ni ei wneud i helpu i ychwanegu gwerth at eich busnes. Rydyn ni'n croesawu unrhyw syniadau sydd gennych am gynhyrchion a gwasanaethau newydd.

E-bostiwch ni i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau.

Gallwch gysylltu â ni yn:



bst@dwrcymru.com



0800 260 50 52